# Lleoliad Ymarfer Gofal: Cartref Gofal/Cartref Nyrsio

## Enghraifft Profiad Dysgu ar Leoliad, Myfyriwr BSc Nyrsio

**Cefndir**

Pwrpas y lleoliad yw darparu cyfres o gyfleoedd dysgu yn unol â Nyrs y Dyfodol: Safonau hyfedredd nyrsys cofrestredig (2018) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC). Bydd yn cynrychioli cyfleoedd dysgu cyffredinol tra'n cydnabod bod rhai lefelau gofal hynod arbenigol mewn cyfleusterau cartrefi gofal amrywiol. Felly, gellid ei ddefnyddio fel templed a all gael ei addasu i feysydd penodol o arbenigedd.

Mae Cartref Gofal yn derm ymbarél a ddefnyddir i ddiffinio lleoliad sy'n darparu gofal preswyl. Fe'i defnyddir i ddisgrifio lleoliadau sy'n cynnig llety a gofal, ac sy'n cynnwys cartrefi gofal preswyl yn ogystal â chartrefi nyrsio. Mae gwahaniaethau rhwng y mathau o gartrefi gofal a'r math a lefel y gofal maen nhw'n ei ddarparu. Bydd pob Cartref Gofal yn amrywio o ran lefel yr arbenigedd a ddarperir i fodloni anghenion y preswylwyr. Rhaid i gartrefi nyrsio gyflogi nyrsys cofrestredig, tra bod cartrefi preswyl yn cyflogi rheolwyr cofrestredig, nid nyrs gofrestredig bob amser. Bydd rhai cartrefi gofal yn cynnig cyfuniad o ofal cymdeithasol i fodloni anghenion bob dydd y preswylwyr, a gofal nyrsio. Mae rhai eraill yn cynnig gofal hynod arbenigol i fodloni anghenion pobl â chyflyrau hynod gymhleth, er enghraifft clefyd niwronau motor, anaf trawmatig i'r ymennydd, cyflyrau iechyd meddwl, anableddau dysgu ac ymddygiad heriol. Oherwydd hyn, bydd yr ystod oedran yn amrywio o 18 oed.

Bydd y timau staffio ym mhob cartref gofal yn amrywio yn dibynnu ar y lefel ofal a ddarperir, a bydd yn gyfrannol i anghenion penodol y preswylwyr. Mae tîm y cartref gofal yn aml-ddisgyblaethol ac yn cynnwys Nyrsys Cofrestredig, Rheolwyr Cofrestredig, Gweithwyr Cymorth/Gofalwyr, Therapyddion, Nyrsys Arbenigol, cydlynwyr gweithgareddau, Cogyddion i baratoi prydau bwyd, staff cynnal a chadw, staff gweinyddol, rheolwyr a staff cadw tŷ. Maent i gyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddarparu ffordd o fyw cartrefol 24/7; gan geisio cadw unigolrwydd pob preswylydd, tra'n cynnal urddas, parch ac annibyniaeth. Yr ethos gofal yw creu amgylchedd mor normal ag sy'n bosibl i sicrhau bod pob preswylydd yn mwynhau bywyd llawn a boddhaus.

Mae cyflwyniad diweddar (2022) rôl CHEF (Hwylusydd Addysg Cartrefi Gofal) yn Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn cydnabod yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o Gartrefi Gofal wedi cefnogi addysg myfyrwyr nyrsio cyn cofrestru ar sail ad hoc. Rôl CHEF yw gweithio mewn partneriaeth â darparwyr prifysgol a chartrefi gofal ledled Cymru i gefnogi darpariaeth lleoliadau presennol a datblygu lleoliadau newydd. Bydd hyn yn grymuso staff cartrefi gofal i rannu eu hehangder o arbenigedd i ddarparu profiad dysgu ar leoliad i fyfyrwyr nyrsio.

Gall cartrefi gofal gynnig cyfleoedd dysgu helaeth i fyfyrwyr nyrsio gyflawni hyfedredd NMC. Darparu profiadau dysgu mewn lleoliadau clinigol a meithrin myfyrwyr nyrsio cyn cofrestru yw'r cam cychwynnol strategol o ran hyrwyddo cyfleoedd gyrfaol sydd ar gael yn y ddarpariaeth gofal hanfodol hon. Myfyrwyr nyrsio yw'r dyfodol, ac mae meithrin eu brwdfrydedd yn hanfodol er mwyn cefnogi dyfodol y gweithlu nyrsio.


## Profiadau Dysgu Ymarfer (PLE) yn yr amgylchedd dysgu lletyol

| PLE Cyffredinol | PLE Ychwanegol |
|---|---|
| ➢ Technegau cyfathrebu<br>➢ Sgiliau gwrando<br>➢ Cydlynwyr gweithgareddau gyda defnyddwyr gwasanaeth<br>➢ Grwpiau – gweithgareddau strwythuredig ac ad hoc<br>➢ Arwyddion hanfodol/arsylwadau<br>➢ Gofal personol, hylendid, gofal y geg, mynd i'r tŷ bach, cynorthwyo pobl i fwyta ac yfed<br>➢ Cynllunio gofal, monitro faint o fwyd a diod mae'r unigolyn yn ei fwyta neu yfed<br>➢ Defnyddio technoleg ddigidol<br>➢ Cynllunio gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn<br>➢ Fframweithiau asesu risgiau<br>➢ Gofal mannau pwysedd/wlserau pwysedd<br>➢ Atal a rheoli heintiau<br>➢ Ymarfer seiliedig ar dystiolaeth<br>➢ Gofal hirdymor<br>➢ Y broses dderbyn/rhyddhau<br>➢ Cynllunio gofal ymlaen llaw<br>➢ Cydweithredu gyda gofal iechyd sylfaenol<br>➢ Diogelu<br>➢ Gweinyddu meddyginiaeth gan gynnwys system ofal rhagweithiol o ran meddyginiaeth<br>➢ Gofal dementia<br>➢ Gofal lliniarol<br>➢ Gofal diwedd oes<br>➢ Paratoi ar gyfer claddu | ➢ Cynllunio a darparu gweithgareddau ystyrlon ar gyfer unigolion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ran dull<br>➢ Cwrdd â chyrff comisiynu byrddau iechyd/awdurdodau lleol amrywiol i sicrhau bod y gefnogaeth a ddarperir yn unol â buddion gorau'r unigolyn<br>➢ Ceisiadau am Awdurdodiad Safonol, awdurdodiad brys a diwygio ceisiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS)<br>➢ Llenwi ffurflenni atgyfeirio aml-asiantaethol (MARF) ac ymgysylltu ag asiantaethau diogelu amrywiol i sicrhau diogelwch oedolion agored i niwed<br>➢ Cefnogi a chyflawni'r broses cynllunio ar gyfer risgiau i safon uchel iawn, gydag adolygiadau rheolaidd<br>➢ Defnyddio'r model Bioseicogymdeithasol i nodi agweddau ar gymorth, risgiau ac anghenion yr unigolyn<br>➢ Cyfarfodydd wythnosol/unrhyw fater arall sy'n adolygu popeth yn y cartref e.e. gofal clinigol, risgiau clinigol, staffio<br>➢ Archwiliadau rheolaidd gan unigolyn cyfrifol i sicrhau bod y cartref yn cydymffurfio a bod cynrychiolydd yn cynnal archwiliadau i sicrhau hyn<br>➢ Archwiliadau mewnol yn crybwyll risgiau, llywodraethu/cydymffurfiaeth, safonau gofal, iechyd a diogelwch, yr amgylchedd |

## Cyfleoedd Dysgu Ategol

- Arbenigwr nyrsio dysffagia
- Dietegydd
- Therapydd iaith a llafaredd
- Arbenigwr nyrsio diabetes
- Arbenigwr nyrs glinigol clefyd Parkinsons
- Therapydd galwedigaethol
- Tîm iechyd meddwl cymunedol
- Tîm nyrsio cymunedol
- Ffisiotherapyddion
- Fferylliaeth
- Gofal cymdeithasol (gweithiwr cymdeithasol)
- Timau Gofal Sylfaenol
- Timau CHC
- Tîm a nyrsys arbenigol gofal hirdymor (hyd at wythnos o PLE ychwanegol)

**Bydd y myfyrwyr yn cael eu goruchwylio a'u hasesu gan ddefnyddio Model Tîm fel yr isod**




*Gall y Model a ddefnyddir drwy gydol y lleoliad fod yn hynod hyblyg i gynnig profiad dysgu rhyng-broffesiynol amrywiol i'r myfyriwr. Bydd y PA a'r PS dynodedig yn gweithio yn rhan o dîm y Cartref Gofal fel yr Amgylchedd Dysgu Lletyol, a gallent ddefnyddio arbenigedd aelodau'r tîm er mwyn cyfrannu at ddysgu'r myfyriwr. Rhaid i'r PA/PS gyfathrebu â'r tîm yn ehangach i ennill dealltwriaeth o sut mae'r myfyriwr wedi datblygu ei wybodaeth a'i sgiliau dan eu goruchwyliaeth. Ar y llaw arall, gall Goruchwylwyr Ychwanegol nodi'r dysgu ar y 'Cofnod Profiad Dysgu Ymarfer Ychwanegol' yn y Ddogfen Asesu Ymarfer (PAD). Pan fydd y myfyriwr yn mynd ar leoliad ategol, bydd hyn yn brofiad dysgu allanol i'r amgylchedd dysgu lletyol, a bydd angen i'r goruchwylydd lenwi'r 'cofnod dysgu ymarfer ychwanegol' yn y Ddogfen Asesu Ymarfer.*

*Mae'n bosibl na fydd Goruchwylwyr Ychwanegol yn Weithwyr Proffesiynol Iechyd cofrestredig, ond byddant yn arbenigwyr yn eu maes ymarfer; rhaid i fyfyrwyr gael mynediad i gofrestrydd. Mae cyfathrebu rhwng ymarferwyr yn hanfodol i sicrhau bod profiad y myfyriwr yn bodloni ei amcanion dysgu unigol.*

Bydd y PA/PS yn cwrdd â'r myfyriwr ar ei ddiwrnod cyntaf / yn ystod yr wythnos gyntaf o ymarfer. Byddant yn trafod y profiadau dysgu amrywiol i sicrhau eu bod nhw'n cynllunio cyfleoedd dysgu ychwanegol/ategol sy'n bodloni anghenion myfyrwyr unigol.

## Deilliannau Hyfedredd NMC y gellid eu cyflawni

| **Profiad ar Leoliad** *Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS) a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Adferiad Integredig (IRIS)* | *Platfform 1 Bod yn weithiwr proffesiynol atebol* | *Platfform 2 Hybu iechyd ac atal salwch* | *Platfform 3 Asesu anghenion a chynllunio gofal* | *Platfform 4 Darparu ac arfarnu gofal* | *Platfform 5 Arwain/rheoli gofal nyrsio a gweithio mewn timau* | *Platfform 6 Gwella diogelwch ac ansawdd gofal* | *Platfform 7 Cydlynu Gofal* | ***Atodiad B: Rhestr Sgiliau Nyrsio Ychwanegol*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhan 1** | P1.7, 11, 12, 15,16 | P2.1,4,5, 6,7,10,12 | P3.1-6, 8,9, | P4.1, P4.3,4, 5,6,78, 12,13,14 | P5.1,10, 11 | P6.1-3,5,6 | P7.1, 9,11 | 1,6, |
| **Rhan 2** | P1.7, 11,12, 15,16 | P2.14,5, 6,7,8,9, 12 | P3.1,2,4, 5,6,7,8, 9,10,15, 16 | P4.1-4.8,11, 12,13,14 | P5.1,2,4, 11 | P6.1, 3,5,6 | P7.1, 9,11 | 1,6,10, 14,18 |
| **Rhan 3** | P1.2,7, 11,12, 15,16 | P2.1-2.12 | P3.1-3.16 | P4.1 – 4.18 | P5.1,2,3, 11 | P6.1-6.10 | P7.1, P7.5 - 7.10, | 1,6,10, 14,18 |